PRIFYSGOL
BANGOR
UNIVERSITY

# Ordinhad 32

# Dirprwy i'r Is-ganghellor a Dirprwy Is-gangellorion

| | |
|---|---|
| **Corff Cymeradwyo:** | Y Cyngor |
| **Dyddiad Cymeradwyo:** | 25 Tachwedd 2024 |
| **Perchennog y Polisi:** | Ysgrifennydd y Brifysgol |
| **Swyddog Polisi:** | Swyddog Contractau |
| **Statws y Polisi:** | Diwygiwyd |
| **Fersiwn:** | 1.1 |
| **Dyddiad adolygu:** | Hydref 2024 |
| **Dyddiad Adolygu Nesaf:** | Hydref 202 |

# Ordinhad 32
# Dirprwy i'r Is-ganghellor a Dirprwy Is-gangellorion

1) Bydd y Cyngor yn penodi Dirprwy i'r Is-ganghellor a Dirprwy Is-gangellorion, yn dilyn proses o ddewis. Y Cyngor fydd yn penderfynu ar nifer y Dirprwyon i'r Is-ganghellor a nifer y Dirprwy Is-gangellorion ar argymhelliad yr Is-ganghellor.

2) Penodir Dirprwy Is-gangellorion am dymor o bedair blynedd, gyda'r posibilrwydd o'u hailbenodi am un cyfnod arall o bedair blynedd yn amodol ar gymeradwyaeth y Cyngor.

3) Dan baragraff 11 y Siarter, bydd cyfnod Dirprwy Is-gangellorion fel aelodau o'r Cyngor cyhyd ag y byddant yn parhau i ddal eu swydd oni bai eu bod yn cael eu diswyddo yn unol â'r Ordinhadau.

4) Dim ond i swyddi sy'n gofyn am arweinyddiaeth academaidd y rhoddir teitl Dirprwy i'r Is-ganghellor a Dirprwy Is-gangellorion.

5) Bydd swydd Dirprwy i'r Is-ganghellor a Dirprwy Is-gangellorion yn cynnwys y swyddogaethau hynny a ddirprwywyd iddynt gan y Llywydd/Is-ganghellor, a gellir amrywio'r cyfryw swyddogaethau o dro i dro

6) Pan fydd swydd wag yn codi ar gyfer swydd Dirprwy i'r Is-ganghellor neu Ddirprwy Is-ganghellor, caiff y swydd ei hysbysebu'n fewnol a gellir ei hysbysebu'n allanol hefyd.

7) Yn dilyn proses o ddewis, penodir Dirprwy i'r Is-ganghellor neu Ddirprwy Is-ganghellor gan y Cyngor ar argymhelliad y Llywydd/Is-ganghellor.